# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

**Mae Athrofa Padarn Sant, drwy Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, yn darparu grantiau cymorth er mwyn cyfrannu tuag at dreuliau tai a byw ymgeiswyr a noddir gan Esgob.** Cynlluniwyd grantiau llawn-amser i dalu am gostau byw sylfaenol megis bwyd, rhent a chyfleustodau (Nid ydynt wedi eu cynllunio i dalu dyledion a chytundebau cyllidol). Cynlluniwyd grantiau rhan-amser i dalu treuliau achlysurol ac i dalu costau teithio o fewn ardal weinidogaeth yr ymgeisydd.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at y categorïau a ganlyn o ymgeiswyr:

- **Categori A** - Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, ac sydd wedi symud i Athrofa Padarn, Caerdydd, neu sydd mewn eiddo ar rent gerllaw er mwyn hyfforddi.

- **Categori B** - Ymgeiswyr amser llawn, sy'n aros yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, rhwng dydd Mercher a dydd Gwener yn ystod y tymor ond sy'n parhau i fyw yn eu Hesgobaeth ac ar leoliad yno[1].

- **Categori C** – Ymgeiswyr rhan-amser, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig.

- **Categori Ch** – Ymgeiswyr amser llawn a rhan-amser sy'n astudio mewn coleg ar wahân i Athrofa Padarn Sant gydag awdurdod llawn y Bwrdd Gweithredol, neu'r rhai sydd â llwybr hyfforddi pwrpasol.

Mae'r tudalennau a ganlyn yn nodi'r cymorth sydd ar gael a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r ffurflen gais, a'r cyfraddau presennol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.

*Rhaid i dystiolaeth ategol fel y nodir ar y ffurflen gais, gael ei chyflwyno gyda'r ffurflen gais wedi ei gwblhau. Gweler Atodiad B am restr wirio tystiolaeth ategol.*

**Ymholiadau am gwblhau'r Ffurflen Gais**
Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gwblhau'r ffurflen gais cysylltwch:
Andrew Emery andrewemery@churchinwales.org.uk
Rowena Hodge rowenahodge@churchinwales.org.uk

Neu ffoniwch: 02920 348224

**Cyfrifo Grantiau Ymgeiswyr Llawn-amser**
Ar ôl i'r ceisiadau gael eu cymeradwyo, anfonir copi atoch o'r cyfrifiadau sy'n ymwneud â'ch grant. Yna, bydd y grantiau'n cael eu talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc ar ddiwrnod gwaith olaf bob mis.

**Talu'r Grantiau**
***Ymgeiswyr Amser Llawn:***
At ddibenion y grant, i ddechreuwyr newydd ystyrir bod y flwyddyn academaidd yn dechrau y dydd Llun ar ôl yr Ysgol Haf (sef 19 Awst 2024) a bydd yn cael ei dalu tan 31 Awst y flwyddyn ganlynol.

---
[1] Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr sydd eisoes yn byw ym Mhadarn Sant, Caerdydd, neu gerllaw y mae'r Esgob yn noddi iddynt gael ei lleoli yn yr esgobaeth,

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

Ar gyfer y rheiny s'n dychwelyd ond nad sydd y neu flwyddyn olaf bydd y grant yn dechrau ar y 1 Medi ac yn para tan 31 Awst y flwyddyn ganlynol. I'r rhai sy'n dychwelyd ac y neu flwyddyn olaf bydd y flwyddyn grant yn dechrau ar y 1 Medi ac yn para tan 30 Mehefin y flwyddyn ganlynol (10 mis)

I ddechreuwyr newydd bydd rhandaliad cyntaf eu grant yn dechrau 31 Awst ac yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn rhandaliadau cyfartal misol fel ôl-daliadau. I ymgeiswyr presennol bydd taliad cyntaf eich grant ar gyfer y flwyddyn academaidd yn dechrau ar 30 Medi.

***Ymgeiswyr Rhan-amser***

Bydd y grant o £435 yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc mewn tri rhandaliad fel a ganlyn:

30 Medi £150; 31 Rhagfyr £150; 31 Mawrth £135.

Gall Ymgeiswyr Rhan-amser wneud cais am dreuliau teithio sy'n gysylltiedig â hyfforddiant **y tu allan i ardal eu gweinidogaeth.** Os yw ardal eu gweinidogaeth yn cwmpasu ardal fawr sy'n golygu bod angen teithio gryn dipyn, dylai'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i diwtor. Nid yw treuliau teithio i weithgareddau y byddai ymgeisydd rhan-amser wedi'u talu'n flaenorol, fel mynychu'r eglwys, yn cael eu cwmpasu.

Bydd y ffioedd ar gyfer Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd, y llwybr academaidd arferol, yn cael eu talu ar gyfer ymgeiswyr hyd at y diwrnod y byddant yn cael eu hordeinio/derbyn eu trwydded. Mae'n bosibl y bydd costau llwybrau academaidd eraill y cytunwyd arnynt yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant cychwynnol, gyda chytundeb Deon yr Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

**Ble i ddanfon eich Ffurflenni Wedi'u Cwblhau**

Dylid anfon y ffurflenni wedi'u cwblhau at:

Mrs Sharon Hayes
Bwrdd Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, 2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT
E-bost: sharonhayes@churchinwales.org.uk

**Cyllid Ychwanegol**

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i dderbyn credydau treth, ewch i https://www.gov.uk/browse/benefits/tax-credits i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r Gronfa Ordinandiaid yn gronfa ymddiriedolaeth, sydd ar gael i ymgeiswyr amser llawn sy'n darparu cyllid ar gyfer:

a) Caledi ac argyfyngau a brofir gan ordinandiaid;
b) Ordinandiaid sy'n mynychu cynadleddau; a
c) Ordinandiaid sydd ar leoliadau tramor.

Os oes gennych angen sy'n dod o fewn un o'r categorïau uchod, siaradwch â'ch tiwtor.

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

**Newidiadau mewn amgylchiadau personol**

***Er gwybodaeth, os bydd unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau personol yn ystod y flwyddyn academaidd, mae gorfodaeth arnoch i hysbysu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau o fewn 4 wythnos o unrhyw newid.***

*Mae Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn cymryd Diogelu Data o ddifrif. Mae gwybodaeth am sut mae eich data'n cael eu cadw a'u prosesu ar gael yma: https://www.churchinwales.org.uk/cy/privacy-notice/. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'r Adran Diogelu Data DataProtection@churchinwales.org.uk neu dros y ffôn ar 02920 348200.*

**CATEGORÏAU O YMGEISWYR**

**(Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, ac sydd wedi symud i Athrofa Padarn, Caerdydd, fel rhan o'i noddi, neu sydd mewn eiddo ar rent gerllaw er mwyn hyfforddi.)**

Mae gan ymgeiswyr Categori A amser llawn yr hawl i gael y grantiau a ganlyn, ac sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A.

**Rhannu Costau**

**Os oes gennych briod sydd ag incwm trethadwy yn uwch na'r trothwy rhannu costau, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y Grant Tai a Phlant yn daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Bydd y trothwy rhannu costau yn cael ei seilio ar Gyflog Byw Cenedlaethol net. Bydd 75% o bob punt o'r incwm net (ar ôl treth a gostyngiad yswiriant cenedlaethol) sydd dros y trothwy rhannu costau yn cael ei dynnu o gyfanswm y Grant Plant a Grant Llety wedi eu cyfuno.**

Er mwyn allu cael Grantiau Llety a Phlant, os oes gennych briod, bydd angen i chi ddatgan ei holl incwm trethadwy yn yr adran berthnasol ar y ffurflen gais, gan gynnwys incwm o rent, buddsoddiadau, a ffynonellau incwm eraill. Bydd rhaid cynnwys tystiolaeth o bob incwm, gan gynnwys P60 diweddara a chopi o ddatganiadau ban ar gyfer y 2 fis blaenorol.

## I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant cymorth i hyfforddi'n cael ei leihau 2 fis calendr, gan fod yr ordeiniadau'n cael eu cynnal ym mis Mehefin.

## II. GRANT AR GYFER PLANT

Mae grantiau ar gyfer plant dibynnol gan gynnwys llysblant ar gael. Mae'r rhain yn amodol ar drefniant rhannu costau sy'n seiliedig ar incwm priod/partner sifil, a cheir y manylion llawn am hyn isod.

Dim ond plant dibynnol y dylid eu cynnwys ar y ffurflen gais (y rhai mewn addysg amser llawn hyd at lefel israddedig). Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Er gwybodaeth, nid oes rhaid datgelu Budd-daliadau Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais. Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant ar gyfer plant yn cael ei leihau 2 fis calendr gan fod yr ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

## III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori A yr hawl i wneud cais am grant teithio i dalu am 3 taith ddwyffordd o Athrofa Padarn, Caerdydd, i'w hesgobaeth bob blwyddyn academaidd, ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth (y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill 20xx i 5 Ebrill 20xx). Os nad yw myfyriwr yn defnyddio ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle fo'n bosib. Bydd y treuliau ar gyfer y teithiau hyn yn cael eu cynnwys yn y taliadau grant misol.

Nodwch y milltiroedd a deithiwyd rhwng y cyfeiriad y byddwch yn aros ynddo yn eich Esgobaeth ac Athrofa Padarn, Caerdydd yn Adran C (tudalen 2) y ffurflen gais.

Os yw addysgu wyneb yn wyneb yn cael ei gyfyngu mae'n bosib y bydd y treuliau sy'n rhan o'r grant yn cael ei addasu.

Mae'r treuliau teithio ar gyfer lleoliadau a theithio i gyfnodau preswyl yn cael eu had-dalu ar wahân a gellir gwneud cais amdanynt drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter. Ni fydd ceisiadau ar gyfer costau tacsi yn cael eu had-dalu os ydy trafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

## IV. GRANT LLETY

Mae Athrofa Padarn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y dewisiadau tai a ganlyn ar gyfer ymgeiswyr amser llawn: Llenwch yr adran Cais am Grant Llety yn y ffurflen gais.

Noder os yw eich priod yn derbyn llety gan yr esgobaeth fel rhan o'u pecyn tâl mae'n debygol y bydd yn effeithio ar eich grant llety. Cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i drafod cyn gynted â phosib.

Gall ymgeiswyr Categori A, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, wneud cais am:

### i. Llety yn Athrofa Padarn, Caerdydd

Mae gan Athrofa Padarn Sant llety sy'n addas ar gyfer cyplau ac unigolion ar ei safle. Bydd Athrofa Padarn Sant yn talu am gostau llety'r ymgeiswyr sy'n byw yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd. Mae'n ddisgwyliedig i bobl yn y sefyllfaoedd hyn fyw ar y safle. Mewn sefyllfa lle nad oes llety ar gael ar y safle, bydd angen i'r ymgeisydd ddod o hyd i lety priodol o'r safle. Bydd y llety yn cael ei gytuno gan

y Cyfarwyddwr Gweithrediadau mewn ymgynghoriad â'r Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion. Yn yr achos hwn, bydd darpariaeth Grant Llety yr un peth ag ymgeiswyr Categori B.

**ii. Llety ar gyfer ymgeiswyr â theuluoedd**

Lle mai ymgeisydd â theulu yn symud i Gaerdydd i hyfforddi, bydd angen iddyn nhw ddod o hyd i lety yng Nghaerdydd mor agos â phosib i safle Padarn Sant, Caerdydd. Bydd Padarn Sant yn darparu Grant Llety. Rhaid i lety o'r fath gael ei drefnu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Mae'r Grant Llety yn cael ei rhannu yn ddwy ran - Lwfans Tai a Lwfans Gwasanaethau sy'n mynd tuag at drydan, nwy, dŵr, a band llydan. Mae dwy lefel o Lwfans Tai, sef lefel safonol a lefel uwch, i gydnabod bod tai yn llawer drutach mewn rhai rhannau o Gymru nag mewn rhannau eraill. Mae'r manylion llawn i'w cael yn Atodiad A.

Bydd cynghorau lleol fel arfer yn rhoi gostyngiad yn y Dreth Gyngor i'r rhai sydd mewn addysg amser llawn. Bydd Athrofa Padarn yn darparu llythyr yn cadarnhau bod ymgeisydd mewn addysg amser llawn, y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth wrth wneud cais am y gostyngiad. Os ydy ymgeisydd yn cael trafferth yn cael gostyngiad mewn Treth Cyngor dylai cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr i gael cymorth.

## V. <u>Costau Hyfforddi</u>

Bydd holl gostau'r hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arno yn cael eu talu gan Athrofa Padarn Sant. Bydd Athrofa Padarn hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar y cwrs astudio academaidd y cytunwyd arno drwy gydol y cyfnod hyfforddi cychwynnol. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs yn uniongyrchol.

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

**YMGEISWYR CATEGORI B**

***(*Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd, rhwng dydd Mercher a dydd Gwener yn ystod y tymor ond sy'n parhau i fyw yn eu Hesgobaeth ac sydd ar leoliad yno.)**

Mae gan ymgeiswyr Categori B amser llawn hawl i dderbyn y grantiau canlynol, rhoddir **manylion llawn** yn Atodiad A.

**Rhannu Costau**

**Os oes gennych briod sydd ag incwm trethadwy yn uwch na'r trothwy rhannu costau, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y Grant Tai a Phlant yn daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Bydd y trothwy rhannu costau yn cael ei seilio ar Gyflog Byw Cenedlaethol net. Bydd 75% o bob punt o'r incwm net (ar ôl treth a gostyngiad yswiriant cenedlaethol) sydd dros y trothwy rhannu costau yn cael ei dynnu o gyfanswm y Grant Plant a Grant Llety (lwfans llety a gwasanaethau) wedi eu cyfuno**

Er mwyn allu cael Grantiau Llety a Phlant, os oes gennych briod, bydd angen i chi ddatgan ei holl incwm trethadwy yn yr adran berthnasol ar y ffurflen gais, gan gynnwys incwm o rent, buddsoddiadau, a ffynonellau incwm eraill. Bydd rhaid cynnwys tystiolaeth o bob incwm, gan gynnwys P60 diweddara a chopi o ddatganiadau ban ar gyfer y 2 fis blaenorol.

## I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi yn cael ei adolygu pob blwyddyn.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant cymorth i hyfforddi'n cael ei leihau 2 fis calendr, gan fod yr ordeiniadau'n cael eu cynnal ym mis Mehefin.

## II. GRANT AR GYFER PLANT

Mae grantiau ar gyfer plant dibynnol (gan gynnwys llysblant) ar gael. Mae'r rhain yn amodol ar drefniant rhannu costau sy'n seiliedig ar incwm priod/partner sifil, a cheir y manylion llawn am hyn isod.

Dim ond plant dibynnol ddylid eu cynnwys ar y ffurflen gais (y rhai mewn addysg amser llawn hyd at lefel israddedig). Rhowch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais.

Er gwybodaeth, nid oes rhaid datgelu Budd-daliadau Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais. Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant ar gyfer plant yn cael ei leihau 2 fis calendr gan fod yr ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

## III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori B sy'n cymudo o'u cartrefi i Athrofa Padarn Sant, Caerdydd bob wythnos hawl i wneud cais am grant teithio ar gyfer y daith ddwyffordd i Athrofa Padarn, Caerdydd, bob wythnos. Lle fo'n bosib mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac fe gaiff ei ad-dalu ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 milltir gyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth (y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill 20xx hyd at 5 Ebrill 20xx) Mae cyfanswm treuliau teithio i ac o Athrofa Padarn Sant yn cael eu cyfrifo a'u cynnwys yn y taliadau grant misol.

Ni fydd cost defnyddio tacsi yn cael ei had-dalu os oes dull amgen o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Os yw addysgu wyneb yn wyneb yn cael ei gyfyngu mae'n bosib y bydd y treuliau sy'n rhan o'r grant yn cael ei addasu.

Mae'r treuliau teithio ar gyfer lleoliadau yn cael eu had-dalu ar wahân a gellir gwneud cais amdanynt drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter.

## IV. GRANT LLETY

Mae Athrofa Padarn Sant yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr amser llawn sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain drwy gydol eu hyfforddiant ar ffurf Grant Llety. Cwblhewch yr adran Cais am Grant Llety yn y ffurflen gais.

Noder os yw eich priod yn derbyn llety gan yr esgobaeth fel rhan o'u pecyn tâl mae'n debygol y bydd yn effeithio ar eich grant llety. Cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i drafod cyn gynted â phosib.

Bydd cynghorau lleol fel arfer yn rhoi gostyngiad yn y Dreth Gyngor i'r rhai sydd mewn addysg amser llawn. Bydd Athrofa Padarn Sant yn darparu llythyr yn cadarnhau bod ymgeisydd mewn addysg amser llawn, y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth wrth wneud cais am ostyngiad. Os ydy ymgeisydd yn cael trafferth yn cael gostyngiad mewn Treth Cyngor dylai cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr i gael cymorth.

*Lle bo ymgeisydd sengl yn rhannu tŷ gydag eraill, bydd y Grant Llety cymesur i'r bobl sy'n byw yn y tŷ. Er enghraifft lle mai ymgeisydd yn rhannu tŷ gyda 2 berson arall, byddwn yn derbyn treian o'r Grant Llety arferol. Bydd ymgeiswyr sengl sydd wedi eu lleoli yn yr Esgobaeth ac yn rhannu llety yng Nghaerdydd yn medru gwneud cais am gyfran o'r rhent cyhyd nad ydyw yn uwch na chyfanswm y grant perthnasol ar gyfer maint y tŷ. Dylai ymgeiswyr yn y sefyllfa hon gysylltu â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.*

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

## V. Costau Hyfforddi

Bydd yr holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt yn cael eu talu gan Athrofa Padarn. Bydd Athrofa Padarn hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar y cwrs astudio academaidd y cytunwyd arno drwy gydol cyfnod ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs yn uniongyrchol.

**YMGEISWYR CATEGORI C**

***(Ymgeiswyr amser llawn, sy'n astudio yn Athrofa Padarn Sant i gael trwydded.)***

Mae gan ymgeiswyr Categori C rhan-amser yr hawl i gael:

**I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI RHAN-AMSER**

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi yn daladwy bob blwyddyn ar y gyfradd a nodir yn Atodiad A. Mae hyn er mwyn cwmpasu'r treuliau achlysurol a delir yn ystod yr hyfforddiant fel costau teithio o fewn ardal weinidogol a llyfrau.

**II. GRANT TEITHIO**

Mae gan ymgeiswyr Categori C hawl i wneud cais am y treuliau a delir ar gyfer teithio mewn cysylltiad â hyfforddi, **ar wahân i deithio o fewn yr Ardal Weinidogaeth / Gweinidogaeth rydych yn byw ynddi,** ar gyfradd bresennol CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth (y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill 20xx hyd 5 Ebrill 20xx). Lle nad yw'r ymgeisydd yn defnyddio ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle'n bosib. Ni fydd y gost o ddefnyddio tacsi yn cael ei had-dalu os oes dull teithio amgen ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gael. Ni fydd y gost o deithio i weithgareddau arferol yr ymgeisydd, fel mynychu ei eglwys ei hun, yn cael ei chynnwys.

Gellir gwneud cais am gost teithiau drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter.

Gall Ymgeiswyr Rhan-amser wneud cais am dreuliau sy'n gysylltiedig â theithio **y tu allan i ardal / plwyf eu gweinidogaeth.** Os yw ardal eu gweinidogaeth yn cwmpasu ardal fawr sy'n golygu bod angen teithio gryn dipyn, dylai'r ymgeisydd drafod hyn gyda'i diwtor. Nid yw treuliau teithio i weithgareddau y byddai ymgeisydd rhan-amser wedi'u talu'n flaenorol, fel mynychu'r eglwys, yn cael eu cynnwys.

Bydd cost Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd, y llwybr academaidd arferol, yn cael ei thalu ar gyfer ymgeiswyr hyd at y diwrnod y byddant yn cael eu hordeinio/derbyn eu trwydded. Mae'n bosibl y bydd costau llwybrau academaidd eraill y cytunwyd arnynt yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

cychwynnol, drwy gytundeb Deon yr Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs astudio yn uniongyrchol.

***Er gwybodaeth, dim ond tudalen 1 o'r ffurflen gais y mae angen i ymgeiswyr Categori C ei llenwi.***

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

**YMGEISWYR CATEGORI Ch**

***(Ymgeiswyr amser llawn sy'n astudio mewn coleg ar wahân i Athrofa Padarn Sant, neu'r rhai sydd â llwybr hyfforddi pwrpasol ac sydd wedi ei gymeradwyo.)***

**Mae gan ymgeiswyr Categori Ch amser llawn yr hawl i dderbyn nifer o grantiau canlynol, ac fe roddir manylion llawn yn Atodiad A.**

**Rhannu Costau**

**Os oes gennych briod sydd ag incwm trethadwy yn uwch na'r trothwy rhannu costau, bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y Grant Tai a Phlant yn daladwy gan yr Eglwys yng Nghymru. Bydd y trothwy rhannu costau yn cael ei seilio ar Gyflog Byw Cenedlaethol net. Bydd 75% o bob punt o'r incwm net (ar ôl treth a gostyngiad yswiriant cenedlaethol) sydd dros y trothwy rhannu costau yn cael ei dynnu o gyfanswm y Grant Plant a Grant Llety (lwfans llety a gwasanaethau) wedi eu cyfuno.**

Er mwyn allu cael Grantiau Llety a Phlant, os oes gennych briod, bydd angen i chi ddatgan ei holl incwm trethadwy yn yr adran berthnasol ar y ffurflen gais, gan gynnwys incwm o rent, buddsoddiadau, a ffynonellau incwm eraill. Bydd rhaid cynnwys tystiolaeth o bob incwm, gan gynnwys P60 diweddara a chopi o ddatganiadau ban ar gyfer y 2 fis blaenorol.

## I. GRANT CYMORTH I HYFFORDDI

Mae'r Grant Cymorth i Hyfforddi'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

Yn eich blwyddyn olaf, bydd y grant cymorth i hyfforddi'n cael ei leihau 2 fis calendr, gan fod yr ordeiniadau'n cael eu cynnal ym mis Mehefin.

## II. GRANT AR GYFER PLANT

Mae grantiau ar gyfer plant dibynnol (gan gynnwys llysblant) ar gael. Mae'r rhain yn amodol ar drefniant rhannu costau sy'n seiliedig ar incwm priod/partner sifil, a cheir y manylion llawn am hyn isod.

Dim ond plant dibynnol y dylid eu cynnwys ar y ffurflen gais (y rhai mewn addysg amser llawn hyd at lefel israddedig). Darparwch enwau a dyddiadau geni'r holl blant dibynnol ar dudalen 1 y ffurflen gais

Er gwybodaeth, nid oes rhaid datgelu Budd-daliadau Plant y Llywodraeth ar eich ffurflen gais. Yn eich blwyddyn olaf, bydd y Grant ar gyfer Plant yn cael ei leihau 2 fis calendr gan fod yr ordeiniadau'n digwydd ym mis Mehefin.

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

## III. GRANT TEITHIO

Mae gan ymgeiswyr Categori Ch sy'n hyfforddi rhywle heblaw Athrofa Padarn Sant yr hawl i wneud cais am gostau teithio o'u cartref i'w lleoliad eu hastudiaethau. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth CThEM fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir ar gyfer y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn yr un flwyddyn dreth (y flwyddyn dreth yw 6 Ebrill 20xx hyd at 5 Ebrill 20xx). Os nad oes gan fyfyriwr ei ddull teithio preifat ei hun, bydd cost briodol taith ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei had-dalu.

Bydd ymgeiswyr Categori Ch sy'n hyfforddi mewn lleoliad arall heblaw Athrofa Padarn Sant, yn medru hawlio costau teithio o'u cartref i leoliad eu hastudiaethau. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle fo'n bosib. Lle nad yw'n bosibl defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus telir costau teithio ar gyfradd bresennol y CThEF o 25c y filltir fel y nodir yn Atodiad A. Mae hyn yn 45c y filltir am y 10,000 o filltiroedd cyntaf a 25c y filltir wedi hynny o fewn y flwyddyn ariannol (y flwyddyn dreth 6 Ebrill tan 5 Ebrill.

Ni fydd y gost o ddefnyddio tacsi yn cael ei had-dalu lle bo dull amgen o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gael.

Os ydy addysgu wyneb yn wyneb yn cael ei gyfyngu mae'n bosib bydd treuliau sy'n rhan o'r grant yn cael ei addasu.

Mae'r treuliau teithio ar gyfer lleoliadau yn cael eu had-dalu ar wahân a gellir gwneud cais amdanynt drwy Athrofa Padarn Sant bob mis neu bob chwarter.

## IV. GRANT LLETY

Mae Athrofa Padarn yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr amser llawn sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain drwy gydol cyfnod eu hyfforddiant ar ffurf Grant Llety. Llenwch yr adran Cais am Grant Llety yn y ffurflen gais.

Noder os yw eich priod yn derbyn llety gan yr esgobaeth fel rhan o'u pecyn tâl mae'n debygol y bydd yn effeithio ar eich grant llety. Cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau i drafod cyn gynted â phosib.

Mae'r Grant Llety yn cynnwys dwy rhan- Lwfans Llety a Lwfans Cyfleustodau sydd yn mynd at dalu cost trydan, nwy, dŵr a band llydan. Mae yna ddwy lefel, lefel safonol a lefel uwch, i gydnabod bod tai yn llawer drutach mewn rhai rhannau o Gymru nag mewn rhannau eraill. Mae'r manylion llawn i'w cael yn Atodiad A.

Bydd cynghorau lleol fel arfer yn rhoi gostyngiad yn y Dreth Gyngor i'r rhai sydd mewn addysg amser llawn. Bydd Athrofa Padarn Sant yn darparu llythyr yn cadarnhau bod ymgeisydd mewn addysg amser llawn, y gellir ei ddefnyddio fel tystiolaeth wrth wneud cais am ostyngiad. Os ydy ymgeisydd yn cael trafferth yn cael gostyngiad mewn Treth Cyngor dylai cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr i gael cymorth.

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

Os yw ymgeisydd yn symud i Gaerdydd i hyfforddi ond yn hyfforddi mewn coleg ardal yn hytrach na Athrofa Padarn Sant, ac wedi ei gymeradwyo gan Bwrdd Gweithredol Padarn Sant, mae'n dod o dan Gategori A ar gyfer eu llety.

*Lle bo ymgeisydd sengl yn rhannu tŷ gydag eraill, bydd y Grant Llety cymesur i'r bobl sy'n byw yn y tŷ. Er enghraifft lle mai ymgeisydd yn rhannu tŷ gyda 2 berson arall, byddant yn derbyn treian o'r Grant Llety arferol.*

## V. Costau Hyfforddi

Bydd yr holl gostau hyfforddiant ffurfiannol y cytunwyd arnynt yn cael eu talu gan Athrofa Padarn. Bydd Athrofa Padarn hefyd yn gyfrifol am noddi lle'r ymgeisydd ar y cwrs astudio academaidd y cytunwyd arno am hyd ei hyfforddiant cychwynnol. Bydd Athrofa Padarn yn talu darparwr y cwrs yn uniongyrchol.

## Atodiad A

### CYFRADDAU GRANTIAU 2023-24

**YMGEISWYR AMSER LLAWN**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cymorth i Hyfforddi | £6,190 | | | |
| Grant ar gyfer Plant | £4,832 plentyn cyntaf<br>£4,229 ail blentyn<br>£3,624 ar gyfer plant dilynol | | | |
| Grant Llety | | Lwfans tai (safonol) | Lwfans Tai (uwch)[2] | Lwfans Cyfleustodau a'r Rhyngrwyd |
| | 2 ystafell wely | £8,698 | £10,872 | £2,607 |
| | 3 ystafell wely | £11,416 | £13,047 | £3,583 |
| | 4+ ystafell wely | £13,047 | £17,395 | £4,668 |
| Trothwy Rhannu Costau | £18,120 | | | |

[2] Mae'r eiddo yn yr ardaloedd gwerth uchaf wedi'i nodi yng Nghymru

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

| | |
|---|---|
| Rhannu Costau | Mae 75% o bob £ o incwm net y priod/partner sifil sydd dros y trothwy rhannu costau yn cael ei ddidynnu o'r Grantiau Plant a Thai *wedi'u cyfuno*. |

Noder os bydd person sengl yn rhannu tŷ gydag oedolion eraill y bydd y grant tai yn cael ei addasu yn briodol. Er enghraifft, os yw ymgeisydd yn rhannu gyda 2 oedolyn arall byddant yn derbyn treian o'r grant.

**YMGEISWYR RHAN AMSER**

| | **CYFRADDAU 2024-25** |
|---|---|
| Grant Cymorth i Hyfforddi | **Bydd £435 yn ogystal â'r costau astudio academaidd yn cael eu talu yn ystod yr hyfforddiant** |
| Grant Teithio | Hyd at 10,000 milltir = 45c y filltir<br>Dros 10,000 milltir = 25c y filltir |

Manylion Cyswllt defnyddiol:

Ymholiadau Grantiau Cyffredinol:
Siân Trotman, Rheolwr Gwasanaethau i Ddysgwyr sian.trotman@stpadarns.ac.uk
Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithediadau Kathryn.delderfield@stpadarns.ac.uk

Ymholiadau ar geisiadau grant:
Andrew Emery, Dirprwy Bennaeth Cyllid andrewemery@churchinwales.org.uk
Rowena Hodge, Rheolwr Cyllid rowenahodge@churchinwales.org.uk
Sharon Hayes, Swyddog Cyllid sharonhayes@churchinwales.org.uk

**Atodiad B**
**Rhestr Wirio Tystiolaeth**

| **Incwm** | Tick that included |
|---|---|
| Cyflog Net ** | |
| Pensiwn Net * | |
| Incwm Rhent* | |
| Incwm Grant * | |
| Incwm Buddsoddi* | |
| Buddiant Banc | |
| Cymhorthdal Incwm (e.e. Yr Asiantaeth Budd-daliadau) * | |
| Budd-dal Tai * | |
| Incwm Eraill (nodwch)* | |

** rhowch dystiolaeth megis P60*

# Yr Eglwys yng Nghymru – Gwybodaeth gan Athrofa Padarn am Grantiau Cymorth i Hyfforddi ar gyfer Ymgeiswyr a ddechreuodd hyfforddi o fis Gorffennaf 2021 ymlaen

** Net Treth ac Yswiriant Gwladol

**Tystiolaeth arall**

| | |
|---|---|
| Cytundeb Tenantiaeth | |
| Datganiadau Banc (2 fis) | |
| Cost Tocynnau Trên (amcangyfrif) | |